Cynulliad Cenedlaethol Cymru

ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR CYFIAWNDER CYMDEITHASOL AC ADFYWIO

Rheoliadau Ombwdsmon Tai Cymdeithasol Cymru

1. Trafododd y Pwyllgor y Rheoliadau uchod yn ei gyfarfod ar 27 Ebrill 2005. Anfonasai'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio yr eitem i'r Pwyllgor ar gyfer craffu.

2. Mae'r Rheoliadau yn sicrhau darpariaeth i Ombwdsmon Tai Cymdeithasol Cymru (SHOW) gael ymchwilio i gwynion a wneir yn erbyn landlordiaid tai cymdeithasol yng Nghymru.

3. Ni chafwyd cynigion ar gyfer newid y rheoliadau ond cododd yr Aelodau y pwyntiau canlynol:

Sut y bydd tenantiaid yn cael eu hysbysu am swyddogaeth Ombwdsmon Tai Cymdeithasol Cymru?

Ateb: Dywedodd y Gweinidog y byddai'n hysbysu'r Pwyllgor am y datblygiadau diweddaraf yn y trefniadau cyhoeddusrwydd ar gyfer swyddogaeth yr Ombwdsmon yn ei hadroddiad ysgrifenedig nesaf. Byddai hwn ar gael cyn y ddadl yn y Cyfarfod Llawn.

- **Sut fyddai'r Ombwdsmon yn cael ei benodi?**

Ateb: Trosglwyddir y swyddogaeth fel y'i dynodir yn Neddf Tai 2004 i'r Comisiynydd Lleol yng Nghymru ar hyn o bryd.

- **A fyddai unrhyw arbedion ariannol i'r Adran yn sgil y trosglwyddo?**

Ateb: Ers pum mlynedd bellach gwnaed y trefniadau ariannol ar gyfer sefydlu'r rôl hwn, a throsglwyddir yr arian hyn i'r Ombwdsmon wrth i'r gwaith ddechrau.

- **A fyddai darpariaeth i anwybyddu cwynion a wneir o ran hwyl neu i beri blinder?**

Ateb: Ceir darpariaeth o'r fath, ond bydd yr Ombwdsmon yn gorfod datgan yn ysgrifenedig y rhesymau dros beidio ag ymchwilio.

- **Mae'r Rheoliadau drafft yn cyfeirio at sefyllfa lle bo gan achwynydd reswm dros godi achos mewn Llys Barn. Pe bai'r achwynydd yn methu fforddio'r gost o wneud hynny a fyddai'r achos yn mynd yn ei flaen?**

Ateb: Yr Ombwdsmon fyddai'n penderfynu hynny ym mhob achos unigol.

Janice Gregory AC
Cadeirydd, Y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio.